Os am ddechrau clwb, cysylltwch gyda'r Swyddog Hyrwyddo yn eich ardal chi neu ffoniwch Swyddfa Merched y Wawr ar 01970 611661

1.NIFER I DDECHRAU CLWB

- Mae 8 yn ddigon i ddechrau clwb

2.OEDRAN

- Ar gyfer menywod ifainc, ond mae oedrannau yn amrywio o glwb i glwb...!

3. GWNEUD RHESTR O BAWB SYDD YN Y CYFARFOD CYNTAF

- Enw, Cyfeiriad, Rhif ffôn ac e-bost pawb sy’n bresennol
- Yr un peth i ddarpar aelodau

4. LLE I GWRDD

- Fel arfer unwaith y mis mewn tafarn neu glwb
- Dylid drafod opsiynau yn y cyfarfod cyntaf a chytuno ar fan cwrdd

5. DEWIS SWYDDOGION

- Cysylltydd : Dylid ethol Cysylltydd er mwyn derbyn gohebiaeth a bod yn gyswllt
- Trysorydd : Gweler canllawiau ar waelod tudalen 2 *
- Is-drysorydd : yn gyfrifol am gasglu copïau o’r Wawr o rhyw siop leol pob 3 mis

6. DEWIS ENW I’R CLWB

- Gall fod yn seiliedig ar enw’r ardal neu beidio

7. TREFNU RHAGLEN

- Un neu ddwy yn gyfrifol am bob mis, yn lle bod y Cysylltydd yn gyfrifol am y cyfan, gan nodi enw(au), rhif(au) ffôn a cyfeiriad e-bost y trefnwyr.
- Mae rhyddid i bob clwb drefnu eu rhaglen, ond cynnal popeth drwy’r Gymraeg
- Yn ddelfrydol, dylid llunio rhaglen newydd cyn yr hâf er mwyn cychwyn gyda’r rhaglen newydd dechrau Medi.

8. TÂL AELODAETH

- £16 y flwyddyn, i’w gasglu gan y Trysoryddes ym mis Medi. Cedwir £3.00 gan y

clwb.

- Ar ôl danfon yr Arian Aelodaeth at y Rhanbarth, bydd y Clwb newydd yn derbyn £100.
- Bydd pob aelod yn debyn rhifyn o gylchgrawn ‘Y Wawr’ bedair gwaith y flwyddyn am ddim.